

Cyngor Cymuned Bryncrug Community Council
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar
nos Lun 16eg Mai 2016 am 7pm

Presennol: Alan Hugh Jones, (Cadeirydd); Cyng. Bethan Lawton, Ieu Thomas, Richard Evans,
Arwel Pierce (Clerc),

Ymddiheuriad: Peter Parker,

Estynnwyd croeso i bawb gan y Cadeirydd

Datgan diddordeb: Dim.

1. Darllenwyd cofnodion 25ain Ebrill 2016 a'u cael yn gywir.

Cynigwyd gan RE; Eiliwyd gan BL; Llofnodwyd gan y Cadeirydd

2. Materion yn codi.

- Clerc heb glywed gan Gadeirydd y Clwb Peldroed. Deallwyd fod swm o £200 yn dal i fod yn ddyledus.
- Mynedfa i gae ar ffordd Tyn Llwyn Hen. Darllenwyd llythyr y Parc Cenedlaethol yn egluro fod rhelyw o'r gwaith wedi ei gwblhau ac yn boddhau gofynion y Parc
- Roedd y Cyngorydd Sirol wedi gwneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd i ganfod dulliau o ostwng trethi'r Cae Chwarae. Un syniad a gafwyd oedd trosglwyddo'r Paflawn i berchnogaeth y clwb Peldroed. Gwrthodwyd hyn.
- Glanhau'r Cae wedi'r Noson Tân Gwyllt. Darllenwyd llythyr Mrs Nancy Clarke, un o'r cyfarwyddwyr, oedd yn datgan y byddai'r Cae yn cael ei glirio mor fuan â phosibl, yn enwedig ar ôl i'r Cae sychu.
- Baw Cŵn. Heb dderbyn ymateb, ond deallwyd fod Warden wedi bod yn teithio o amgylch y pentref yn ddiweddar.
- Cyfarfod Pont ar Ddyfi. Diolchwyd i 4 aelod o'r Cyngor am fod yn bresennol yn y cyfarfod a alwyd gan Gyngor tref Tywyn. Wrth adrodd yn ôl eglurodd yr aelodau mai dewis cyntaf y rhai oedd yn bresennol oedd ffordd osgoi, ond fod y syniad hwnnw bellach wedi cael ei osod ar y silff. Mynegwyd cryn bryderon ynglŷn â mynedfa trafnidiaeth y ffordd o Aberdyfi i gyfeiriad yr A487. Doedd y broblem o beipio'r dŵr o dan bont y rheilffordd pan fyddai'r Ddyfi yn llawn llif heb ei goresgyn.
- Toiled y pentref. Gweler cofnod y Cyfarfod blynnyddol

3. Llwybrau. Mewn cyflwr eithaf derbyniol drwedd a thrwy. Eto roedd angen atgoffa'r aelodau mai eleni fyddai'r tro olaf inni dderbyn ad-daliad, ac o hyn ymlaen, disgwylir i'r Cyngor ei hun wynebu'r gost ychwanegol o gynnal y rhwydwaith llwybrau.

4. Un Llais Cymru. Gwahoddiad i'r cyngor anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod Blynnyddol i'w gynnal yn Neuadd Pendre ar 25ain Mai am 7pm. Cynigwyd AHJ a RE wrth gefn.

5. Taliadau.

| | | | |
|--------------------|--|--------|---------|
| Cambrian News | Hysbyseb Clerc | 101496 | £163.68 |
| Y Ganolfan | Llogi | 101497 | £ 12.00 |
| Cyngor Gwynedd | Bin Cae Chwarae | 101498 | £ 67.00 |
| A. Hugh Jones | Trydan y Paflawn | 101499 | £ 40.00 |
| Derbyniadau | | | |
| Cyngor Gwynedd | Ad-daliad Llwybrau Cyhoeddus (Cyfartaledd dros 5 mlynedd) | | £154.00 |

6. Materion Eraill.

Penodi Clerc: Derbyniwyd un cais oedd yn ymateb i ofynion y ddwy swydd yn yr hysbyseb (Cyngor Bryncrug a Dolgoch)

Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â'r ymgeisydd er mwyn cynnal cyfarfod anffurfiol ar ddull sgwrs, fel rhan o'r cyfweliad. Cytunwyd i gyfarfod fel cyngor rhyw hanner awr cyn y cyfarfod hwnnw.

7. Cae Chwarae.

Nododd AHJ fod angen torri gwair y cae peldroed. Clerc i gysylltu â Kevin Jones, Machynlleth a Chadeirydd y Clwb Peldroed.

Roedd wedi sylwi fod y bolltau sy'n dal mainc goffa'r diweddar John Robertson yn rhydu. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu hefo Mrs Maureen Robertson.

Bryncrug Community Council

Minutes of a meeting held on Monday May 16, 2016 at 7pm

Present: Alan Hugh Jones (Chair); Coun. Bethan Lawton, Ieu Thomas, Richard Evans, Arwel Pierce (Clerk)
Apology: Peter Parker,

A warm welcome was extended by the Chairman

Interest declared: None.

1. Minutes of meeting held on 25th April 2016 were found to be correct. Proposed by RE; Seconded by BL; Signed by the Chairman

2. Matters arising.

- Clerk had not heard from the Chairman of the AFC. Given to understand that the sum of £ 200 is still owed.
- Access to the field on the road to Tyn Llwyn Hen. Letter from the National Park was read explaining that most of the work has been completed and satisfies the requirements of the Park.
- The County Councillor had made enquiries with Gwynedd Council to find ways of lowering the rates on the Playground. One idea was to transfer the ownership of the Pavilion to the Football club. This was rejected.
- Clearing the Cae Chwarae after Bonfire Night. Mrs. Nancy Clarke, one of the directors', letter was read which stated that the field will be cleared as soon as possible, especially after the drying out.
- Dog Fouling. No response received, but it is understood that the Warden had been seen around the village recently.
- Dyfi Bridge Meeting. The 4 Council members were thanked for their attendance at the meeting convened by Tywyn Town Council. When reporting back members explained that the first choice of those who were present had been a bypass, but that that idea had now been put on the shelf. Grave concerns were expressed regarding the junction from the Aberdyfi road towards the A487. The problem of piping water from under the railway bridge when the Dyfi River is full flow has not been overcome.
- Village Toilets. See the minutes of the AGM

3. Paths. Condition of the paths is quite acceptable over all. Members were reminded that this year would be the last time for us to receive a refund; from now on, the Council is expected to face all additional cost of maintaining the network paths.

4. Un Llais Cymru. An invitation has been received to send a representative to the council meeting to be held at Neuadd Pendre on 25th May at 7pm. RE agreed to attend (AHJ to deputize if needed) .

5. Payments.

| | | | |
|-----------------|-----------------------|--------|----------|
| Cambrian News | Advert for Clerk | 101496 | £ 163.68 |
| The Ganolfan | Hiring | 101497 | £ 12.00 |
| Gwynedd Council | Playground Bin | 101498 | £ 67.00 |
| A. Hugh Jones | Electric for Pavilion | 101499 | £ 40.00 |

Receipts

| | | |
|-----------------|--|----------|
| Gwynedd Council | Public Path Rebate (Average over 5 years) | £ 154.00 |
|-----------------|--|----------|

6. Other Matters.

Appointment of Clerk: One application was received in response to the two positions in the advertisement (Bryncrug CC and Dolgoch)

Clerk agreed to contact the applicant to hold an informal meeting style conversation, as part of the interview.

It was agreed to meet as a Council half an hour before that meeting.

7. Playground.

AHJ noted the need for grass cutting on the football pitch. Clerk to contact Kevin Jones, Machynlleth and Chairman of the Bryncrug Football Club.

He had noticed that the bolts on the late John Robertson's memorial bench are rusting . The Clerk to contact Mrs. Maureen Robertson.